

# Adsefydlu cardiaidd

Mae adsefydlu cardiaidd gyda phwyslais ar ffisiotherapi yn ymyriad clinigol a chost effeithiol i'r sawl sy'n byw gyda chlefyd cardiofasgwlaidd.

## Beth yw clefyd cardiofasgwlaidd?

Mae clefyd cardiofasgwlaidd yn cynnwys cyflyrau fel angina, trawiad ar y galon a strôc. Caiff clefyd y galon ei achosi gan gynnydd graddol mewn gwaddodion brasterog yn rhydwelïau'r galon gan achosi iddynt gulhau ac arwain at angina. Os oes darn o'r gwaddodion brasterog yma yn torri'i ffwrdd o wal rhydweli, gall achosi ceulad a all wedyn deithio yn y gwaed, gan fynd yn soudn ac atal cyflenwad gwaed i'r galon (gan arwain at drawiad ar y galon) neu i'r ymennydd (gan arwain at strôc).

Mae tua hanner y cleifion gyda chlefyd cardiofasgwlaidd yn dioddef o broblemau iechyd ychwanegol gyda tua 30% yn dioddef poen cefn ac arthritis, 21% yn dioddef gyda chlefyd y siwgr ac 16% (10,000) yn ychwanegol gydag afiechydon anadlu gan gynnwys asthma.<sup>(1)</sup>

## Adsefydlu

Mae rhaglenni adsefydlu cardiaidd gyda phwyslais ar ffisiotherapi yn effeithiol glinigol o ran gostwng marwoldeb<sup>(2)</sup>; gwella iechyd ac ansawdd bywyd; gostwng yr amser a dreulir mewn ysbyty<sup>(3)</sup>; a gostwng nifer y bobl sy'n gorfol mynd i'r ysbyty eto. Mae'r rhaglenni hefyd yn cefnogi dychwelyd i'r gwaith a hunanreoli'r cyflwr<sup>(4)</sup>.

Mae tua 400 o ffisiotherapyddion yn arwain neu'n gweithio mewn tua 395 o raglenni adsefydlu cardiaidd ar draws y Deyrnas Unedig<sup>(1)</sup>. Mae profiad ffisiotherapyddion yn werthfawr tu hwnt wrth asesu cleifion cardiaidd gan fod gan lawer gyflyrau nad ydynt yn gysylltiedig â'r galon fel arthritis, poen cefn, cymalau newydd, strôc a phroblemau anadlu. Mae'n rhaid eu hadnabod ac addasu ymyriadau therapiwtig er mwyn galluogi'r cleifion hyn i wneud sesiynau ymarfer corff yn ddiogel. Nid oes unrhyw dystiolaeth o raglenni ymarfer corff yn achosi niwed<sup>(2,3)</sup>. Mae'r elfen ymarfer corff mewn rhaglen adferiad yn hanfodol, ac mae'n dangos gwell canlyniadau na gofal thraddodiadol.<sup>(5,6)</sup> Mae ffisiotherapyddion yn aelodau allweddol o dimau rhynghroffesiynol ac yn aml hwy sy'n rhoi arweiniad



## Maint y Brolem



- Clefyd cardiofasgwlaidd sy'n achosi un ym mhob tair (191,000) o farwolaethau bob blwyddyn, gyda tua hanner y rheiny'n marw o glefyd coronnaidd y galon a dros chwarter o strôc.<sup>(8)</sup>
- Mae hyd at **90%** o risg trawiad ar y galon am y tro cyntaf oherwydd gan naw ffactor ffordd o fyw yr unigolyn a all gael eu newid.<sup>(9)</sup>



clinigol gan annog cleifion i ddysgu sut i fod yn gorfforol weithgar a defnyddio hynny fel un rhan o gynllun gwella ansawdd bywyd gyda chynlluniau ymarfer corff wedi eu paratoi i'r unigolyn. Mae dull gweithredu tîm yn effeithiol o ran costau ac yn arwain at well prognosis.<sup>(7)</sup>

## Lleihau baich y gost

Mae gan adferiad cardiofasgwlaidd y potensial i ostwng risg marwolaeth cardiaidd o 26% dros y 5 mlynedd dilynol, sy'n ail yn unig i aspirin a beta-atalyddion o ran effeithlonrwydd cost (£1,100 fesul flwyddyn bywyd ychwanegol o gymharu gyda £1,975)<sup>(10)</sup> ond dim ond canran fach o'r bobl sy'n byw gydag afiechyd y galon sy'n cael cynnig y cyfle yma.<sup>(11)</sup>

Canfu adolygiad diweddar gan NICE bum astudiaeth ar adferiad cardiofasgwlaidd, bob un ohonynt yn cadarnhau ei fod yn gost-effeithiol o gymharu â gofal traddodiadol.<sup>(12)</sup> Roedd y canlyniadau'n gadarn ac yn dangos fod y gost gynyddol am bob blwyddyn bywyd a addaswyd o ran ansawdd (QALY) tua £8,000 sydd dipyn is na'r lefel a ystyrir fel arfer i fod yn fforddiadwy yn y GIG (tua £20,000 i £30,000 fesul QALY).<sup>(11,12)</sup>

Amcangyfrifwyd y byddai gostwng risg cardiofasgwlaidd ym mhoblogaeth y Deyrnas Unedig gan hyd yn oed 1% yn arbed tua £260 miliwn y flwyddyn.<sup>(13)</sup>

Mae ffisiotherapyddion yn allweddol wrth weithredu rhaglenni adferiad cardiofasgwlaidd sydd yr un mor hygyrch a pherthnasol i bob rhan o'r boblogaeth. Gall ffisiotherapyddion ddangos fod rhaglenni adferiad cardiofasgwlaidd sy'n canolbwytio ar ymarfer corff yn llawer mwy effeithiol o safbwyt cost nac ymyriadau cardiaidd eraill<sup>(5)</sup> gan ddangos gwelliant o 25% ar gyfartaledd mewn lefelau ffitrwydd. Mae'r Adran Iechyd yn cydnabod buddiannau adsefydlu

### Acknowledgements

The CSP would like to thank: Professor Patrick Doherty (Chair of Rehabilitation at York St. John University), The Association of Chartered Physiotherapists in Cardiac Rehabilitation (ACPCR) and Joyce Craig (Craig Health Economics Consultancy Ltd.)

## Cyfeiriadau

1. Sefydliad Prydeinig y Galon. The national audit of cardiac rehabilitation - annual statistical report 2010. Llundain, Sefydliad Prydeinig y Galon; 2010. URL: <http://www.bhf.org.uk/publications/view-publication.aspx?ps=1001019>
2. Jolliffe J, Rees K, Taylor Rod RS, et al. Exercise-based rehabilitation for coronary heart disease. Cochrane Database of Systematic Reviews. Chichester, DU: John Wiley & Sons, Ltd; 2001. URL: <http://www.mrw.interscience.wiley.com/cochrane/clsysrev/articles/CD001800/frame.html>
3. Davies EJ, Moxham T, Rees K, et al. Exercise based rehabilitation for heart failure. Cochrane Database of Systematic Reviews. Chichester, UK: John Wiley & Sons, Cyf; 2010. URL: <http://www.mrw.interscience.wiley.com/cochrane/clsysrev/articles/CD003331/frame.html>
4. Adran Iechyd. Coronary heart disease and the need for cardiac rehabilitation. Llundain, Adran Iechyd; 2010. URL: [http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/Browsable/DH\\_117658](http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/Browsable/DH_117658)
5. Brown A, Taylor R, Noorani H, et al. Exercise-based cardiac rehabilitation programs for coronary artery disease: a systematic clinical and economic review. Ottawa: Swyddfa Cydlynu Canada ar gyfer Asesiad Technoleg Iechyd (CCOHTA) 2003. URL: <http://www.cadth.ca/index.php/en/hta/reports-publications/search/publication/398>
6. Taylor RS, Brown A, Ebrahim S, et al. Exercise-based rehabilitation for patients with coronary heart disease: systematic review and meta-analysis of randomized controlled trials. Am J Med. 2004 May 15;116(10):682-92.
7. Zoghbi G, Sanderson B, Breland J, et al. Uptake, outcome and cost of CR are influenced

cardiofasgwlaidd ac wedi cynhyrchu manyleb gwasanaeth yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer comisiynwyr.<sup>(14)</sup>

## Casgliadau

Mae adsefydlu cardiaidd yn driniaeth nad yw'n ddrud ac sy'n arbed bywydau. Mae'n helpu cleifion y galon i wella'n gorfforol ac yn emosynol drwy ymarfer corff, addysg a chefnogaeth.<sup>(10)</sup> Ffisiotherapyddion yw'r proffesiwn o ddewis i arwain rhaglenni adferiad cardiaidd. Mae eu harbenigedd yn eu galluogi i deilwra ymarferion, cyfathrebu negeseuron iechyd y cyhoedd a chefnogi unigolion i wneud dewisiadau ffordd o fyw gan felly leihau'r baich economaidd ar ofal iechyd y Deyrnas Unedig.

## Cost Adferiad Cardiofasgwlaidd

- Mae afiechyd cardiofasgwlaidd yn fater iechyd cyhoeddus difrifol sy'n effeithio ar dros **2.6 miliwn** o bobl yn y Deyrnas Unedig. Amcangyfrifir ei fod yn costio **£30 biliwn** i'r economi.<sup>(8)</sup>
- Amcangyfrifir y costiodd afiechyd cardiofasgwlaidd **£14.4 biliwn** yn 2006 gyda dros **70%** o'r gost hynny oherwydd cleifion mewn ysbyty.<sup>(11)</sup>

## Gwybodaeth bellach

### Uned Ymholiadau'r CSP

Ffôn: 0207 306 6666

E-bost: [enquiries@csp.org.uk](mailto:enquiries@csp.org.uk)

Gwefan: [www.csp.org.uk](http://www.csp.org.uk)



SUPPORTING KNOWLEDGE  
IN PHYSIOTHERAPY PRACTICE



CHARTERED  
SOCIETY  
OF  
PHYSIOTHERAPY

bythe extent of co-morbidity: Optimizing risk stratification in cardiac rehabilitation with inclusionof a comorbidity index. J Cardiopulm Rehabil. 2004;24:8-13.

8. Sefydliad Prydeinig y Galon. Our heart disease facts. Llundain: Sefydliad Prydeinig y Galon. URL: <http://www.bhf.org.uk/media/news-from-the-bhf/bhf-facts.aspx>

9. Yusuf S, Hawken S, Ounpuu S, et al. Effect of potentially modifiable risk factors associated with myocardial infarction in 52 countries (astudiaeth INTERHEART): astudiaeth rheoili achos. Lancet. 2004 Medi 11-17;364(9438):937-52.

10. Fidan D, Unal B, Critchley J, et al. Economic analysis of treatments reducing coronary heart disease mortality in England and Wales, 2000-2010. QJM. 2007 Mai;100(5):277-89. URL: <http://qjmed.oxfordjournals.org/content/100/5/277.long>

11. Scarborough P, Bhatnagar P, Wickramasinghe K, et al. Coronary heart disease statistics 2010. Llundain, Sefydliad Prydeinig y Galon; 2010. URL: <http://www.bhf.org.uk/publications/view-publication.aspx?ps=1001546>

12. NICE. Chronic heart failure: management of chronic heart failure in adults in primary and secondary care. CG108. Llundain: NICE; 2010. URL: <http://www.nice.org.uk/guidance/index.jsp?action=byD&o=13099>

13. NICE. Prevention of cardiovascular disease at population level. Llundain: NICE; 2010. URL: <http://guidance.nice.org.uk/PH25>

14. Adran Iechyd. Commissioning a cardiac rehabilitation service. Llundain: Adran Iechyd 2010. URL: [http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/Browsable/DH\\_117506](http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/Browsable/DH_117506)